# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid – Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Medi 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol

(13.30 – 14.30) (Tudalennau 1 – 25)

Tim Render, Aelod o'r Panel, Swyddfa'r Farchnad Fewnol

James Waugh, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Adroddiad blynyddol ar weithrediad Marchnad Fewnol y DU 2023 – 2024

[Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 – Papur 1 – Papur briffio gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.40 – 14.50)

### 4.3 SL(6)520 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

(Tudalen 26)

Rheoliadau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

[Memorandwm Esboniadol]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 26 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.50 - 14.55)

### 5.3 SL(6)508 - Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024

(Tudalennau 27 - 32)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 27 - Adroddiad

LJC(6)-27-24 - Papur 28 - Ymateb LLywodraeth Cymru

## 7 Papurau i’w nodi

(15.00 - 15.05)

### 7.3 Adroddiad gan Bwyllgor Dethol Tŷ’r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad: Llywodraethiant yr Undeb: Ymgynghori, Cydweithrediad a Chydsyniad Deddfwriaethol

[Datganiad i’r wasg am yr adroddiad]

## 10 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Adroddiad drafft

(15.20 - 15.40) (Tudalennau 33 - 100)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-24 - Papur 22 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4.3

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae’r cwestiwn o ran pwy yw’r personau eraill a chanddynt ddiddordeb yn dibynnu ar y math o heneb sydd o dan sylw, yn ogystal â natur y cytundeb partneriaeth. Er enghraifft, gallent fod yn gymdeithas amwynder megis y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru neu ymddiriedolaethau lleol eraill neu bartneriaid eraill a chanddynt ddiddordeb yn yr heneb sydd o dan sylw, neu mewn henebion o fath tebyg.

# SL(6)508 - Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch datrys anghydfodau mewn perthynas â chydsyniad y landlord ac amrywiadau i delerau contract tenantiaeth daliad amaethyddol o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ("Deddf 1986") ac ynghylch ceisiadau i olynu i denantiaeth daliad amaethyddol o dan Ddeddf 1986.

Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 yn darparu i denant atgyfeirio cais i'w gymrodeddu neu, drwy gytundeb ysgrifenedig â'r landlord, am benderfyniad gan drydydd parti pan fo cydsyniad y landlord neu amrywiad i delerau contract tenantiaeth daliad amaethyddol o dan Ddeddf 1986 yn ofynnol naill ai i alluogi tenant i ofyn am gynhorthwy ariannol perthnasol neu i wneud cais am gynhorthwy o'r fath o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 neu er mwyn cyflawni dyletswydd statudol.

Mae Rhan 3 yn nodi'r materion y mae rhaid i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol roi sylw iddynt wrth benderfynu cais gan berson ynghylch a yw'n addas i olynu i denantiaeth daliad amaethyddol o dan Ran 4 o Ddeddf 1986 yn dilyn marwolaeth neu ymddeoliad tenant.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Rheoliadau hyn erbyn 13 Mehefin 2031 ac ar ysbeidiau heb fod yn hwy na 5 mlynedd wedi hynny.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 9 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "cynhorthwy ariannol perthnasol", ym mharagraff (a), mae cyfeiriad at "adran 8 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023". Fodd bynnag, mae'r Ddeddf honno wedi'i diffinio fel "Deddf 2023" yn y Rheoliadau hyn. Mae hefyd yn golygu bod paragraff (a) yn anghyson â'r paragraffau dilynol yn y diffiniad hwnnw pan fo'r term diffiniedig wedi'i ddefnyddio'n gywir wrth gyfeirio at y Ddeddf honno.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "cynhorthwy ariannol perthnasol", ym mharagraff (f), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, y disgrifiad mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad at adran 19 o Ddeddf 2023 yw "(support for rural development)". Ond yn y testun Cymraeg, y geiriau cyfatebol mewn cromfachau yw "(pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig)" sef pennawd llawn adran 19 o'r Ddeddf honno.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, diffinnir y term "dyletswydd statudol" i fod ag ystyr "Yn y Rheoliadau hyn". Ond dim ond yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn y defnyddir y term hwn. Felly, dylai diffiniad o'r term hwn ymddangos yn rheoliad 3 fel yr argymhellwyd gan ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.14(1).

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, mae'r term "penderfyniad gan drydydd parti" wedi'i ddiffinio fel un sydd â'r ystyr a roddir yn adran 96(1) o Ddeddf 1986 yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r term "trydydd parti" hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y Rheoliadau hyn ac mae'n derm diffiniedig yn adran 96(1) o Ddeddf 1986. Felly, nid yw'n glir ai'r bwriad yw i'r term "trydydd parti" gael yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddo yn adran 96(1) o Ddeddf 1986.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, nid oes diffiniad o'r term "y denantiaeth" er ei fod yn cael ei ddefnyddio drwy'r Rheoliadau hyn i gyd.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3, defnyddir y term "y daliad". Gan nad yw'r term hwn wedi'i ddiffinio, nid yw'n glir a oes iddo'r un ystyr â "daliad amaethyddol", a ddefnyddir yn rheoliad 3(1). Yn rheoliadau 4 a 5, defnyddir "y daliad" a "daliad" heb gyfeiriad cynharach at "daliad amaethyddol" o fewn yr un rheoliadau.

At hynny, mae rheoliad 5(1) yn cyfeirio at geisiadau o dan ddarpariaethau yn adrannau 39 a 53 o Ddeddf 1986. At ddiben adran 39, diffinnir "the holding" yn adran 35(2) o Ddeddf 1986 ac at ddiben adran 53, diffinnir "the holding" yn adran 49(3) o Ddeddf 1986. Nid yw'n glir a fwriedir i "daliad" yn y rheoliad hwn ddwyn yr un ystyr ag a ddiffinnir yn adrannau 35(2) neu 49(3) o Ddeddf 1986.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 3(9), mae gwahaniaeth yn y cyfnod o amser a roddir i'r tenant atgyfeirio'r cais i'w gymrodeddu neu i'w benderfynu gan drydydd parti o'i gymharu â'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 3(8) o Reoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi "cyfnod o 4 mis" i'r tenant, ond mae'r set arall o Reoliadau yn rhoi "cyfnod o 2 fis" i'r tenant. Nid yw'n glir pam mae gwahaniaeth yn y cyfnod o amser a roddir i'r tenant gan y darpariaethau cyfatebol yn y gwahanol setiau o Reoliadau.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 4(2)(d), mae'r testun wedi'i ddrafftio'n wahanol i'r ddarpariaeth gyfatebol yn rheoliad 4(2)(d) o Reoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024. Yn y Rheoliadau hyn, mae'n datgan "yr adeg y mae'r dyfarniad neu'r penderfyniad yn cymryd effaith" ond yn y gyfres arall o Reoliadau mae'n datgan, "yr adeg y mae'r dyfarniad yn cymryd effaith". Nid yw'n glir pam mae gwahaniaeth oherwydd caniateir gwneud dyfarniad neu benderfyniad yn y ddwy set o Reoliadau.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 4(6) yn datgan "Mae dyfarniad gan gymrodeddwr neu benderfyniad gan drydydd parti o dan y Rhan hon…". Mae hyn yn codi'r cwestiwn a all cymrodeddwr wneud penderfyniad ac a all trydydd parti wneud dyfarniad, ac os felly, a yw rheoliad 4(6) yn gymwys iddynt? Mae paragraffau eraill rheoliad 4 yn cyfeirio at ddyfarniadau neu benderfyniadau gan y cymrodeddwr neu drydydd parti.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae teitl y Rheoliadau hyn yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol fel "Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord **ac** Amrywio Telerau a'r Prawf

Addasrwydd) (Cymru) 2024" bob tro y defnyddir y teitl. Gofynnwn i deitl cywir y Rheoliadau hyn gael ei gadarnhau.

**11. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol, yn y rhaglith, gyfeirio at adran 94 o Ddeddf 1986 yn hyn o beth.

**12. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r newidiadau i'r Rheoliadau hyn. Nodwn fod cryn amser wedi mynd heibio ers cynnal yr ymgynghoriad hwn yn 2019, fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ar ddiwygio tenantiaethau amaethyddol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 11.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd, ond nid yw'n ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn cyfeirio at yr adran gywir yn Neddf 2023, a bod elfen o'r un testun yn y disgrifiad mewn cromfachau yn y ddwy iaith, nid ydym yn ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fyddwn yn ceisio diwygio'r offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn. Mae ystyr y term 'trydydd parti' (y trydydd parti a benodir i benderfynu'r mater) yn amlwg yng nghyd-destun y defnydd ohono yn yr offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ond nid yw'n ystyried ei fod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn. Mae ystyr y term 'tenantiaeth' (tenantiaeth y daliad) yn amlwg yng nghyd-destun y defnydd ohono yn yr offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd ond nid yw'n ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn. Mae ystyr y term 'daliad' (daliad amaethyddol) yn amlwg yng nghyd-destun y defnydd ohono yn yr offeryn.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Mae'r cyfeiriad at "cyfnod o 4 mis" yn rheoliad 3(9) fel y'i bwriadwyd. Byddwn yn cyflwyno rheoliadau i ddiwygio Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 i fynd i'r afael â phwynt adrodd 6 yn adroddiad SL(6)507, sy'n ymdrin â'r un mater.

**Pwynt Craffu Technegol 8:** Mae'r cyfeiriad at "y mae'r dyfarniad neu'r penderfyniad yn cymryd effaith" yn rheoliad 4(2)(d) fel y'i bwriadwyd. Byddwn yn

cyflwyno rheoliadau i ddiwygio Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 i fynd i'r afael â phwynt adrodd 7 yn adroddiad SL(6)507, sy'n ymdrin â'r un mater.

**Pwynt Craffu Technegol 9:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a godwyd ond nid yw'n ystyried eu bod yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad y ddarpariaeth na'r offeryn ac ni fydd yn ceisio diwygio'r offeryn. Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer dyfarniadau a phenderfyniadau ac mae'n gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer y ddau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 10:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd ac yn cadarnhau mai'r enw a ddefnyddir yn y Rheoliadau yw'r un cywir. Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiwygio yn unol â hynny.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 11:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd. Fodd bynnag, gan nad yw adran 94 o Ddeddf 1986 yn bŵer galluogi, rydym wedi dilyn ein harferion drafftio arferol, ac adran 3.11.23 o "Statutory Instrument Practice" yr Archifau Gwladol, sy'n nodi'n glir "You should not cite provisions that merely specify the relevant Parliamentary procedure".

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon